YSGOL PENRHYN-COCH

Bu tair wythnos olaf tymor y Nadolig yn rhai hynod o brysur yn yr ysgol. Ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 5ed treuliwyd prynhawn difyr yn Theatr y Werin yn gweld perfformiad o'r pantomeim 'Robin ap Croeso a'r Gogodeil' gan Gwmni Whare Teg.

Ar fore Mercher Rhagfyr 6ed cafwyd cwmni criw o athrawon teithiol offerynnol Ceredigion yn yr ysgol. Buont yn dangos yr amrywiol offerynnau cerdd oedd ganddynt ac yn egluro eu gwneuthuriad a'u harbenigrwydd mewn cerddorfa. Cafwyd perfformiadau bywiog a diddorol ganddynt.